

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Rebecca Barrett  
(Rhif Ffôn: 01443 864245 Ebst: barrerm@caerphilly.gov.uk)

**Dyddiad: 4 Rhagfyr 2019**

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi - Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mawrth, 10fed Rhagfyr, 2019** am **5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi hefyd ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r ddau gais hyn yn gofyn am gyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith, a bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.

Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle.

Yr eiddoch yn gywir,



**Christina Harrhy**  
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

## **A G E N D A**

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.  
Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- |   |   |        |
|---|---|--------|
| 3 | Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 29ain Hydref 2019.                             | 1 - 6  |
| 4 | Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor hwn yn unol â'r drefn galw i mewn.                           |        |
| 5 | Blaenraglen Waith Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.   | 7 - 14 |
| 6 | I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau* Cabinet canlynol:-<br>1. Meddiannu Eiddo Preswyl - 27ain Tachwedd 2019. |        |

*\*Os oes aelod o'r Pwyllgor Craffu yn dymuno i unrhyw un o'r adroddiadau Cabinet uchod i gael eu dwyn ymlaen ar gyfer adolygiad yn y cyfarfod, cysylltwch â Rebecca Barrett, 01443 864245, erbyn 10.00 a.m. ar ddydd Llun, 9fed Rhagfyr 2019.*

I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau Craffu canlynol:-

- |   |   |          |
|---|---|----------|
| 7 | Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020/21.                               | 15 - 34  |
| 8 | Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020/21 - Amgylchedd a Chynaliadwyedd. | 35 - 226 |

#### **Cylchrediad:**

Cynghorwyr M.A. Adams, A. Collis, D.T. Davies (Cadeirydd), C. Elsbury, M. Evans, A. Gair, Ms J. Gale, A. Hussey (Is Gadeirydd), S. Kent, Mrs A. Leonard, D.W.R. Preece, J.E. Roberts, J. Scriven, G. Simmonds, A. Whitcombe a T.J. Williams

A Swyddogion Priodol

#### **SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk). ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu. Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio [griffd2@caerffili.gov.uk](mailto:griffd2@caerffili.gov.uk) neu ffoniwch 01443 863028.